

## Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 10<sup>fed</sup>

- Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30 a'r Ysgol Sul am 10.30. Bydd aelodau Groes yn ymuno yn y gwasanaeth yn Henllan a chaiff yr Ysgol Sul ei chynnal yn Groes am 11.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Cefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Mawrth – 12<sup>fed</sup>

- Cymdeithas y Chwiorydd yng Nghapel Groes am 7.30 yng nghwmni Eleri Ames – "Taith India a Nepal".

Gwener – 15<sup>fed</sup>

- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (10<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.

Sul nesaf – 17<sup>eg</sup>

- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 11.00.

Sul canlynol – 24<sup>ain</sup>

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Henllan am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 11.00.

Rhaghysbys

- Bydd Aneurin yn arwain Oedfa i'r Daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yng Nghefn Berain **dydd Sul, Rhagfyr 1af am 11.00** (sylwch ar y newid) gyda'r Ysgolion Sul yn Henllan, Groes a Llanefydd yn cyfarfod am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

## Cofion a Chydymdeimlad

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Glyn Davies (Saron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Nansi. Yn yr un modd, cofiwn am Meurig Owen (Cefn Meiriadog) sydd wedi colli ei chwaer, Morfydd. Gweddiwn y byddant yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn. Cofiwn hefyd am eraill hefyd sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddiwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Ceinlys M. Jones (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Fe'yi cyflwynwn hi, ac eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd, i ofal Duw, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.



## Llais Bro Aled

Tachwedd 10<sup>fed</sup> ac 17<sup>eg</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

'Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyf, a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti, O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.' (Salm 19:14) Wrth i ni ddod at ein gilydd i addoli Duw heddiw, beth am weddio geiriau'r Salmydd drosom ein hunain a'n gilydd gan ddiolch fod gennym Arglwydd sydd yn graig ac yn brynwr a ddaeth yn un ohonom yn Iesu Grist.

Beth yw eglwys? Dyma gwestiwn sydd wedi cael ei ofyn lawer gwaith drosodd gan bobl ar hyd a lled y byd dwi'n siŵr. Ac yn aml, mae'r atebion yn gallu bod yn amrywiol iawn, gyda nifer yn cychwyn gan ddweud "i mi, eglwys yw....." Ond i Gristnogion, rhaid rhoi'r flaenoriaeth i'r hyn y mae'r Beibl yn ei ddweud, a thros y misoedd nesaf byddwn yn ystyried rhai o'r cwestiynau mwyaf sylfaenol ynglŷn â'r eglwys a Christnogaeth o safbwynt y Beibl, ac wrth edrych yn ôl dros hanes Cristnogaeth yng Nghymru. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â ni ar gyfer cyfarfod nesaf 'Beth yw Eglwys' yn Llansannan am 7.30 nos Fercher, Tachwedd 20fed.

Y mis diwethaf wrth i ni gychwyn ar y cwrs, cawsom ein hannog i ystyried o'r newydd beth yw'r pethau sy'n gwbl angenrheidiol ym mywyd eglwys? Ac wrth ddarllen gwahanol rannau o'r Testament Newydd daeth yr hen neges eto i'n clyw mai pobl yw eglwys ac nid adeiladau. Wrth ffarwelio â henuriaid yr eglwys yn Effesus dywed Paul wrthynt: 'Gwyddoch nad ymateliais rhag cyhoeddi i chwi ddim o'r hyn sydd fuddiol, na rhag eich dysgu chwi yn gyhoeddus ac yn eich cartrefi, gan dystiolaethu i Iddewon a Groegiaid am edifeirwch tuag at Dduw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu.' (Actau 20:20-21) I'r Cristnogion cynnar, nid lle'r oeddynt yn addoli oedd yn bwysig, ond pwyr oeddynt yn ei addoli a sut yr oedd posib i eraill hefyd ddod i'r berthynas newydd hon gyda'u Creawdwr trwy'r hyn wnaeth Iesu. Boed mewn cartrefi, yn gyhoeddus mewn synagogau, neu hyd yn oed pan oeddynt wedi'u carcharu am eu ffydd, byddent yn moli Duw ac yn annog eraill i droi at Grist am achubiaeth. (Actau 16:25, 31) Doedd dim am atal y newyddion da rhag lledaenu ar draws y Dwyrain Canol ac Ewrop, ac roedd pobl o begynau gwahanol y gymdeithas yn cael eu huno gyda'i gilydd. Pobl oedd gynt yn elynion yn troi'n frodyr ac yn chwiorydd i'w gilydd yn yr eglwys oherwydd gwaith yr Ysbryd Glân. Wrth i ni feddwl am gymhlethdodau ein cyfnod ni gyda'r pegynnu sy'n digwydd mewn cymdeithas, cofiwn nad yw hynny'n ddim i gymharu â'r rhyfeddod bod Iddewon a Groegiaid wedi eu galw i gyd-addoli gyda'i gilydd yn yr eglwys cynharaf! A'r allwedd? Iesu Grist, conglfaen yr eglwys, ddoe, heddiw ac am byth.

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

**Sul yma – 10<sup>fed</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Rhodri yn pregethu.

Mawrth – 12<sup>fed</sup>

- **'Open Doors'** – Croeso i unrhyw un ymuno mewn noson yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy am 7.30 i glywed sut mae Duw yn adeiladu Ei deyrnas yng Ngogledd Corea. Rhaid archebu tocyn (£5) ymlaen llaw. Gallwch wneud hynny ar wefan [www.eventbrite.co.uk/e/standing-strong-st-asaph-tickets-62248712575](http://www.eventbrite.co.uk/e/standing-strong-st-asaph-tickets-62248712575) neu cysylltwch â Mair.

Mercher – 13<sup>eg</sup>

- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.

lau – 14<sup>eg</sup>

- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Eisteddiad arbennig i drafod y Cynllun Strategaeth yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog am 7.00.

**Sul nesaf – 17<sup>eg</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Mercher – 20<sup>fed</sup>

- **'Beth yw eglwys?'** yn Llansannan am 7.30. Cyfle i drafod beth mae'r Beibl yn ei ddweud ac i ystyried yr her i'r eglwys heddiw. Croeso i bawb.

lau – 21<sup>ain</sup>

- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00 (sylwch ar y newid dyddiad).

Gwener – 22<sup>ain</sup>

- **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

**Sul canlynol – 24<sup>ain</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.

### Peniel, Saron a Nantglyn

**Sul yma – 10<sup>fed</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac oedfa fedydd yn Nantglyn am 2.00.

Mawrth – 12<sup>fed</sup>

- Cymdeithas y Chwiorydd yng Nghapel Groes am 7.30 yng nghwmni Eleri Ames – "Taith India a Nepal".

**Sul nesaf – 17<sup>eg</sup>**

- Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.

**Sul canlynol – 24<sup>ain</sup>**

- Bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) yn Nantglyn am 2.00.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

**Sul yma – 10<sup>fed</sup>**

- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.

- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00.

- Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn cynnal gwasanaeth yn Yr Hen Ddeondy, Llanelwy am 10.30.

- Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl Llansannan yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.30.

Mawrth – 12<sup>fed</sup>

- Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.

Mercher – 13<sup>eg</sup>

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (10<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.

**Sul nesaf – 17<sup>eg</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.

- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa fedydd am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreded.

Llun – 18<sup>fed</sup>

- Cymdeithas Llansannan – "Hawl i Holi" yn y Festri am 7.30 yng nghwmni Garffild Lloyd Lewis, Eifion Lloyd Jones, Ffion Clwyd Edwards a Gwenan Prysor. Cadeirydd: Alun O. Jones.

Mawrth – 19<sup>eg</sup>

- Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.30-3.30 yng nghwmni Llinos Roberts, Cefn Meiriadog. Bydd yno hefyd stondin er budd Gofal Dydd Waengoleugoed.

Mercher – 20<sup>fed</sup>

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (17<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.

**Sul canlynol – 24<sup>ain</sup>**

- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreded.

- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 9.30 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.

### I ddod

- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI'R BYD** yn Festri Capel Seion, Llanrwst dydd lau, Tachwedd 28ain o 10.00 – 1.00.

- **CYFARFOD BLAENORIAID GOFALAETH BRO ALED** nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd yn Llanefydd am 7.30.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (20<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda.